Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

ELLIS, JOHN (?- 1665), offeiriad a Phiwritan llygoer

Enw: John Ellis
Dyddiad marw: 1665
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad a Phiwritan llygoer
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Rheithor Dolgellau o 1646 i 1665. Ganwyd, fel y nodir yn ei ewyllys yn y Gwylan, Maentwrog. Cafodd ei addysg yn Rhydychen (nodir yn ei fatricwleiddio ei fod o Llandecwyn, Meirionnydd), a daeth yn gymrawd o Goleg Iesu yn 1628, ond D.D. o S. Andrews oedd ganddo (1634). Bu'n rheithor Wheatfield yn sir Rhydychen nes ei enwi'n rheithor Dolgellau gan gomisiynwyr y Sêl Fawr; digwyddodd hyn pan oedd polisi crefyddol y wlad yn nwylo arglwyddi Piwritanaidd, Pwyllgor y Gweinidogion Llwm, a Chymanfa Westminster, i gyd yn bobl uniongred ochelgar, Presbyteraidd eu hosgo; nid oedd y dynion eithafol a lywiai'r ' Pride's Purge ' ac a goncrodd yn yr ail Ryfel Cartref wedi dod yn ben weithian. Yr oedd i'r mudo o Loegr i Feirionnydd un fantais go fawr, sef y tâl a ddigwyddai o'r fywoliaeth newydd, yn ymyl £100 y flwyddyn, a £40 ychwanegol a ddyfarnwyd iddo gan yr awdurdodau Piwritanaidd. Enwyd Ellis fel un o'r 25 profwr o dan Ddeddf y Taeniad; gwelir ei enw, yn awr ac eilwaith, yn tystio i rinweddau pregethwyr a oedd yn disgwyl ffafr y ' Triers '; yr oedd gyda'r amlycaf yn galw am sefydlu academi i godi pregethwyr Piwritanaidd, ac yn barod i weithredu fel darlithydd ynddi hyd nes ceid rhywun teilyngach. Prin y buasai neb yn cyfrif y doethur yn Biwritan selog, ac nid oes fawr ddadl nad ei brif reswm dros sefydlu coleg oedd llarieiddio penboethni anwybodus llawer o'r pregethwyr newydd. A phrawf ei sylwadau llym ar rai o benodiadau'r ' Triers ' yng Nghymru, gyda'r geiriau mawrhaol amdano yntau a arferir gan Eglwyswr mor ddigymrodedd â Rolant Fychan o Gaergai, mai bychan oedd ei gydymdeimlad â llawer o bethau a wneid yn enw Piwritaniaeth. Ni chafodd anhawster o gwbl i droi at yr Eglwys yn 1660, canys yn y flwyddyn honno cyhoeddodd y *Defensio Fidei*, amddiffyniad Lladin o gredo a safle'r Anglicaniaid, ac esboniad ar y Deugain Erthygl Namyn Un (dywaid Rolant Fychan iddo gael, o dan law'r Doctor, gopi o bamffled yn pleidio arfer y Weddi Gyffredin, a hynny rai blynyddoedd cyn 1660). Bu farw yn 1665, a thrwy ei ewyllys yn rhoddi darn o dir ym mhlwyf Llanaber at gadw ysgolfeistr yn Nolgellau i ddysgu 12 o fechgyn o dan 16 oed, yn enwedig plant amddifaid, edrychir arno fel sylfaenydd ysgol ramadeg y dref honno.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

The Journals of the House of Lords, viii, 568

Bodleian MS. 325, 166

Lambeth MS 904 (iii, 124), 989 (190-1)

Wales, a National Magazine for the English speaking parts of Wales, iii, 123-4

Endowed Charities Report, Merioneth (1895), sub Dolgelley

gwybodaeth gan Mr. John Lloyd, Llanbedr-ar-Artro

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 60447048

Wikidata: Q6231675

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Richards, T., (1953). ELLIS, JOHN (?- 1665), offeiriad a Phiwritan llygoer. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 2 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELLI-JOH-1665

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government